CYFARFOD: **Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (y CBC)**

DYDDIAD: **27 Hydref 2023**

PWNC: **Ymestyn Cyfnod Secondiad i rôl Prif Weithredwr y CBC**

SWYDDOG CYSWLLT: **Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyngor Gwynedd**

---

**PENDERFYNIAD A GEISIR:**

**Ymestyn cyfnod penodiad Alwen Williams yn Brif Weithredwr rhan-amser Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd, ar sail secondiad, hyd at ddiwedd Mawrth, 2024.**

---

## 1. Cyflwyniad / Cefndir

Yn ei gyfarfod ar 22 Gorffennaf 2022, gwnaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd adolygu rôl y Prif Weithredwr ac, ar ôl ystyried yr opsiynau, penderfynwyd cyflwyno cais i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ryddhau rhan o amser ei Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y Cyd Bwyllgor Corfforedig, o leiaf hyd at 31 Mawrth 2023.

Dewiswyd yr opsiwn o gyflwyno'r cais yma i'r Bwrdd Uchelgais gan ei fod yn debygol byddai y Bwrdd Uchelgais yn cael ei ymgorffori'n rhan o'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, y byddai cost sylweddol uwch pe bai swydd Prif Swyddog annibynnol wedi'i greu, a gan nad oedd digon o amser ar gael i un o'r 6 Prif Weithredwr awdurdod lleol oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig.

Adroddwyd ar y pryd bod penderfyniad mewn egwyddor, i drosglwyddo y Bwrdd Uchelgais i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, eisoes wedi ei wneud gan y Cynghorau ac yn dilyn y newidiadau deddfwriaethol y byddai modd mynd i'r afael â'r broses yma yn ystod y misoedd canlynol. Fel rhan o unrhyw drosglwyddiad byddai sefyllfa holl staff y Swyddfa Portffolio yn cael ei gyfarch.

Fe gofiwch bod angen i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gymeradwyo rhyddhau y Cyfarwyddwr Portffolio cyn i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig ddod i benderfyniad ar benodi Prif Weithredwr dros-dro. Gwnaed hynny yng nghyfarfod y Bwrdd Uchelgais ar 30 Medi 2022, pryd y cytunwyd y gellid rhyddhau rhan o amser y Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor ar sail secondiad.

O ganlyniad, bu i’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, yn ei gyfarfod ar y 7 o Hydref, 2022 gymeradwyo penodiad Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio y Bwrdd Uchelgais, fel Prif Weithredwr rhan-amser, ar sail secondiad, hyd nes caiff y swydd ei hadolygu eto gan y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022/23.

Daeth y trefniant dros-dro hwn, ple bo Alwen Williams yn cyflawni swyddogaeth fel Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor Corfforedig am ddau diwrnod pob wythnos, yn weithredol ar y 10 o Hydref, 2022.

Yn wyneb y ffaith bod nifer o faterion allweddol angen sylw pellach cyn y gallai’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig benodi Prif Weithredwr ar sail parhaol e.e. trosglwyddiad tebygol staff i gyflogaeth y Cyd-Bwyllgor, ail-ymwelwyd a’r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod ar y 7 o Hydref, 2022 yng nghyfarfod y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar y 24 o Fawrth eleni ac hynny gan bod gofyn adolygu cyfnod y secondiad cyn 31 Mawrth, 2023.

Yn y cyfarfod hwnnw, a gyda chydsyniad y Bwrdd Uchelgais i’w rhyddhau ymhellach, cymeradwywyd estyniad i gyfnod penodiad Alwen Williams fel Prif Weithredwr dros-dro tan 30 Medi, 2023.

## 2. Sefyllfa Interim Ôl-Medi 2023

Fel y bydd aelodau’r Cyd-Bwyllgor yn ymwybodol, mae peth gwaith eto i'w gyflawni cyn y gellir penodi Prif Weithredwr ar sail parhaol ac yn wyneb hynny mae angen i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig sicrhau Prif Weithredwr ar sail dros-dro am un cyfnod pellach arall hyd at y 31 o Fawrth, 2024. Fel modd o sicrhau bod pob cefnogaeth posib ar gael i'r Prif Weithredwr dros-dro ar gyfer sefydlu’r Cyd-Bwyllgor Corfforaethol yn derfynol erbyn y 1 o Ebrill, 2024, mae adnodd ychwanegol wedi’i adnabod ac mae adroddiad y Prif Weithredwr dros-dro, sydd yn eitem arall ar raglen y cyfarfod hwn, yn ymhelaethu ar fanylion y gefnogaeth honno.

Cyflwynir adroddiad i gyfarfod o’r Bwrdd Uchelgais yn gynharach yn y dydd ar y 27 o Hydref, 2023 yn ceisio ei gytundeb i ymestyn y cyfnod y mae’n fodlon rhyddhau ei Gyfarwyddwr Portffolio. Gellir adrodd ymateb y Bwrdd i'r cais hwnnw ar lafar yng nghyfarfod y Cyd-Bwyllgor Corfforedig cyn ystyried yr eitem hon.

Fe’ch atgoffir bod y Bwrdd Uchelgais, drwy Cyngor Gwynedd fel Awdurdod Lletya, yn parhau’n gyflogwr cytundebol i Alwen Williams ac mae’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn digolledu’r Bwrdd Uchelgais am y costau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy’n gysylltiedig â’r secondiad. Rhoddwyd yr awdurdod i Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd wneud y trefniadau angenrheidiol o fewn yr hyblygrwydd sydd yng nghyllideb y Cyd-Bwyllgor.

## ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gytuno i ymestyn secondiad rhan-amser Alwen Williams i rôl Prif Weithredwr y CBC hyd at ddiwedd Mawrth, 2024, yn unol â'r penderfyniad a geisir (ac yn amodol ar gytundeb Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i'w rhyddhau am y cyfnod dan sylw).**

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Swyddog Monitro

Rwyf wedi cael mewnbwn i'r adroddiad ac yn fodlon gyda priodoldeb yr argymhelliad

### Swyddog Cyllid Statudol

Mae Cyllideb y Cydbwyllgor Corfforedig ar gyfer 2023/24, a gymeradwywyd yn Ionawr 2023, yn cynnwys amser y Prif Weithredwr am ddau ddiwrnod yr wythnos.  Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol.